




## Cyngerdd Nadolig - diolch

Diolch i chi i gyd am eich cefnogaeth i Gyngerdd Nadolig yr ysgol neithiwr. Roedd y plant wrth eu boddau yn perfformio i'w teuluoedd. Cofiwch, fel y nodwyd yn y rhaglen, tra oedd croeso i chi dynnu lluniau a fideos o'ch plant, peidiwch â'u rhannu ar y cyfryngau cymdeithasol os gwelwch yn dda am resymau diogelu.

Diolchaf i'r plant hefyd am eu perfformiadau hyfryd – rwy'n falch iawn ohonynt bob u
n.

## *Christmas Concert – thank you*

*Thank you all for your support for the school's Christmas Concert last night. The children loved performing in front of their families. Please remember, as mentioned in the programme last night, while you were welcome to take pictures and videos of your children, please do not share them on social media platforms for safeguarding reasons.*

*I thank the children also for their wonderful performances – I am proud of every single one of them.*

---



**16/12/2025**

## Cinio Nadolig a Siwmper Nadolig

Bydd y gegin yn paratoi gwledd ar gyfer ein cinio Nadolig ar ddydd Mawrth yr 16eg o Ragfyr. Mae croeso i bawb gael cinio – os ydy'r plant fel arfer yn bwyta pecyn bwyd ac yn dymuno cael cinio ar y diwrnod mae angen iddynt ddewis yr opsiwn hynny ar y sgrîn ParentPay yn ystod cofrestru ar y bore hwnnw. Mae croeso i bawb wisgo siwmper Nadolig hefyd :-)

## *Christmas Dinner and Christmas Jumper*

*The kitchen will be preparing the usual feast for our Christmas dinner on Tuesday the 16th of December. Everyone is welcome to have lunch - if the children usually eat a packed lunch and wish to have Christmas Dinner on the day they need to select that option on the ParentPay screen during registration on that morning. Everyone is welcome to wear Christmas Jumpers also :-)*

---



**18/12/2025**

## Sinema (Derbyn – Blwyddyn 6)

Bydd pawb heblaw y Meithrin yn treulio prynhawn y 18fed o Ragfyr yn y Sinema yn y dref. Gofynnwn yn garedig am gyfraniad o £4.50 os gwelwch yn dda. Cofiwch wirio eich cyfrif ParentPay.
Byddaf yn anfon mwy o wybodaeth wythnos nesaf, ond dyma'ch hatogffa fod y plant yn cael eu casglu pob blwyddyn o'r Commodore am tua 3:00 – 3:15yp ar ddiwrnod y sinema.

## *Cinema (Reception – Year 6)*

*Everyone except the Nursery will spend the afternoon of the 18th of December at the Cinema in town. We kindly ask for a donation of £4.50 please. Remember to check your ParentPay account. I will share more information next week, however please remember that every year children are collected by parents from the Commodore at around 3:00 – 3:15pm on the cinema day.*

---



## Nadolig Llawen

Bydd yr ysgol yn cau ar gyfer gwyliau'r Nadolig am 3:30yp ar ddydd Gwener y 19eg o Ragfyr 2025, ac yn ail-agor ar ddydd Mawrth y 6ed o Ionawr 2026.

## *Merry Christmas*

*The school will close for the Christmas holidays at 3:30pm on Friday the 19th of December 2025 and reopen on Tuesday the 6th of January 2026.*

## Digwyddiadau a llwyddiannau

Cofiwch fod gan yr ysgol dudalen Instagram ar gyfer rhannu lluniau a newyddion yr ysgol.
O bryd i'w gilydd bydd y timau chwaraeon wedi cystadlu neu bydd canlyniadau eisteddfodol ac ati i'w rhannu; yn ogystal â gweithgareddau'r wythnos yn y dosbarth.

🖰 Instagram – Ysgol Gymraeg


🖰 Instagram – C.Rh.A

## *Events and achievements*

*Remember that the school has an Instagram page for sharing school photos and news.*
*From time to time the sports teams will have competed or there will be eisteddfod results to share etc; as well as the week's activities in class.*

🖰 Instagram – Ysgol Gymraeg

🖰 Instagram – P.T.A



## Calendr Hanner Tymor

Dyma'r ddolen i'r 🖰 Calendr Hanner Tymor
Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol.

## *Half term Calendar*

*Here is the link to the 🖰 Half Term Calendar*
*A link to the calendar is included in each letter, and it lives permanently on the school's website.*

Wythnos ola'r tymor:

*Last week of term:*

| Wythnos 7 / *Week 7* | 15 | 16 | 17 | 18 | 19 | 20 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | ~~Nofio bl.5~~<br>~~*Yr.5 swimming*~~ | **Cinio Nadolig yr ysgol** (a diwrnod Siwmper Nadolig)<br>Prynhawn Agored y Meithrin (ar gyfer disgyblion newydd mis Ionawr)<br>***School Christmas Dinner*** *(and Christmas Jumper day)*<br>*Meithrin Open Afternoon (for pupils starting in January)* | Derbyn i 'Trên Bach y Rheidol' – digwyddiad Nadoligaidd<br>*Derbyn to 'Trên Bach y Rheidol' – Christmas Activity* | Sinema Commodore (i bawb heblaw'r Meithrin) – bydd angen casglu'ch plentyn o Sinema'r Commodore am 3:15yp<br>*Commodore Cinema (for everyone except Meithrin) – please collect your child from the Commodore Cinema at 3:15pm* | Cau ar gyfer gwyliau'r Nadolig 3:30yp<br>*Close for Christmas holidays 3:30pm* | |

### Dyddiadau pwysig nesaf:

- Diwrnod olaf y tymor hwn : Rhagfyr 19eg
- Diwrnod Cau H.M.S : Ionawr 5ed 2026
- Tymor newydd yn cychwyn i blant : Ionawr 6ed 2026

### *Upcoming important dates:*

- *Last day of this term : December 19th*
- *I.N.S.E.T Closure day : January 5th 2026*
- *First day of term for children : January 6th 2026*

**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**
***If you have any concerns about your child's welfare or educational development, then please contact me immediately.***

**Yn gywir,**
**Gareth L James**
**Pennaeth / *Headteacher***
**12/12/2025**
🖰 www.ysgolgymraeg.cymru

| | |
|---|---|
| Bydd Comic Cyw ar gael ar wefan Cyw yn rhad ac AM DDIM o ddydd Llun, 1 Rhagfyr.<br><br>Bydd y cod QR isod ar gyfer y comic yn eich tywys yn uniongyrchol i dudalen Comic Cyw ar y wefan. | *The Cyw Comic will be available on the Cyw website FREE of charge from Monday, 1 December.*<br><br>*The QR code below for the comic will take you directly to the Cyw Comic page on the website.* |










Mae
Siôn Corn
yn dod
i Consti!
14–21ain Rhagfyr
Sganiwch y cod QR i archebu eich tocynnau ar gyfer ogof Siôn Corn
Awyddus i fwynhau'r dathliadau heb ymweld â'r ogof? Dewch ar eich dyddiad dewisol a phrynwch docynnau yn y swyddfa docynnau.
Profwch ryfeddod y tymor gyda siocled poeth a danteithion Nadoligaidd, marchnad nadolig a daith lifft hudolus i ymweld a Siôn Corn ym Mhegwn y Gogledd.
Gweler y wefan am fanylion: www.aberystwythcliffrailway.co.uk


Santa
is coming to
Consti!
14–21st December
Scan the QR code to book your tickets for Santa's Grotto
Want to enjoy the festivities without visiting the grotto? Just come on your chosen date and buy tickets at the ticket office.
Experience the wonder of the season with hot chocolate and festive treats, a Christmas market and a magical elevator ride to visit Santa in the North Pole.
View Website for more details: www.aberystwythcliffrailway.co.uk


Cyngor Sir Ceredigion County Council
Digwyddiad Teganau a Dillad Plant
16/12/2025
10yb - 2yp
Nyth Ni, Canolfan yr Eos, Penparcau
Gofynnwn yn garedig am roddion ail-law o deganau a dillad glan ac o ansawdd da.
Dewch a nhw i Ganolfan deuluol Penparcau neu Nyth ni erbyn y 12.12.25.Neu gysylltwch â Jo-Alice 07891321778 i drefnu man casglu gwahannol
Yna, ar 16.12.25 dewch draw i Nyth Ni, Penparcau i gymryd beth sydd angen arnoch o'r holl roddion.
Does dim rhaid i chi ddod a rhywbeth er mwyn cymryd rhywbeth.


Cyngor Sir Ceredigion County Council
Children's Clothes and Toy Event
16/12/2025
10am - 2pm
Nyth Ni, Canolfan yr Eos, Penparcau
Clean and good quality toys and clothes to be donated to Penparcau Family Centre by 12/12/25 or contact Jo-Alice on 07891321778
contact to arrange a differnet drop off point
Then come along on the 16/12/25 and take what you need!
No need to bring something to take something!